

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro Adolygiad Cryno o Ymarfer

Parthed: CPR/072020¹

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma:

- *Y cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas ag e.*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad.*
- *Y cyfnod amser sy'n destun yr adolygiad a pham.*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad ymarfer plant estynedig gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn sgil argymhelliad yr Is-grwp Adolygu Achosion yn unol â'r Canllawiau ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant Amlasiantaethol. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u bodloni o dan Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant, a gyhoeddwyd o dan adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i Fwrdd Diogelu gynnal adolygiad cryno o arferion plant pan fo cam-drin neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu fod amheuaeth ohono, a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n peryglu ei fywyd; neu
- yr amharwyd yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd; **ac**

nad oedd y plentyn ar y gofrestr diogelu plant nac yn blentyn oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn

- dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod, neu'r
- dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi cael nam difrifol a pharhaol o ran iechyd a datblygiad.

Comisiynodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro adolygiad cryno o ymarfer plant dan gadeiryddiaeth Linda Hughes-Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Y cydadolygwyr yw Sarah Manley, Cyngor Caerdydd a Bryan Heard, Heddlu De Cymru. Cynrychiolwyd yr asiantaethau canlynol ar y panel:

- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC)
- Y Swyddfa Gartref
- Clearsprings Ready Homes Ltd.

¹Mae'r rhain ar sail y flwyddyn y cychwynnodd Adolygiad Ymarfer Plant. Felly, er enghraifft, cyfeirnod yr Adolygiad cyntaf gan Fwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro y flwyddyn nesaf fydd (CPR 01/2025)

Darperir gweinyddiaeth a chymorth i'r panel gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro.

Cafodd yr adolygiad ei oedi yn 2023 tra bod achos barnwrol parhaus yn mynd rhagddo oedd yn ymwneud â rhiant y plentyn. Ar ôl i'r achos barnwrol ddod i ben cynullwyd digwyddiad dysgu ar 27 Chwefror 2024 i lywio'r gwaith o ddatblygu'r adroddiad terfynol hwn a'r cynllun gweithredu.

Cefndir

Ganed Plentyn L yn Llundain yn 2017. Cafodd ei eni gyda chyflwr meddygol a oedd angen adolygiad meddygol parhaus wrth iddo ddatblygu a thyfu.

Roedd mam Plentyn L, Oedolyn A, wedi'i chyflwyno yn hydref 2016 mewn Ysbyty yn Llundain yn dair wythnos ar ddeg yn feichiog, yn ddigartref, ac yn byw gyda ffrindiau o'r eglwys. Mae cofnodion meddygol yn dangos ei bod wedi cael diagnosis o Diabetes Math 2 yn ystod beichiogrwydd.

Mae Oedolyn A yn wreiddiol o Nigeria, a daeth i'r DU yn 2011. Arhosodd yn Llundain ar ôl i'w fisa ddod i ben ar sail Mewnfudwr Heb Ddogfennau yn Aros yn Hirach na Chyfnod Fisa.

Ar ôl genedigaeth ei phlentyn, gwnaeth Oedolyn A gais lloches i'r Swyddfa Gartref. Cafodd ei lletya yn Llundain i ddechrau cyn cael ei symud i Gaerdydd lle cafodd ei chartrefu gan Clearsprings Ready Homes Ltd. sydd â chontract gyda'r Swyddfa Gartref i ddarparu tai i geiswyr lloches yn ardal Caerdydd.

O ganlyniad i Diabetes Math 2 Oedolyn A oedd yn gysylltiedig â'i beichiogrwydd, roedd hi'n credu ei bod mewn grŵp risg uchel mewn perthynas â'r pandemig Coronafeirws. Dechreuodd ynysu gyda'i phlentyn ar ddechrau cyfnod clo'r Coronafeirws ar 23 Mawrth 2020.

Ar 29 Mehefin 2020 derbyniodd Heddlu De Cymru alwad gan ffrind a oedd yn cefnogi'r teulu trwy wneud y siopa bwyd wythnosol a dosbarthu'r eitemau y gofynnwyd amdanynt i'r tŷ. Roedd y ffrind yn bryderus gan nad oedd wedi gallu cysylltu â'r Fam ers sawl diwrnod. Roedd wedi mynd i'w cartref ac ni allai gael ateb.

Mynychodd Swyddogion yr Heddlu ac oherwydd eu pryderon, cawsant fynediad gorfodol i'r ystafell wely. Roedd Plentyn L yn amlwg wedi marw. Roedd ei fam yn fyw ond wedi'i dadhyradu'n ddifrifol a heb gael digon o faeth.

Sefydlwyd yn ddiweddarach fod Plentyn L wedi marw o newyn o ganlyniad i esgeulustod gan Oedolyn A.

Ymgysylltu â Theuluoedd

Cafodd Oedolyn A ddiagnosis o salwch meddwl sylweddol yn dilyn marwolaeth Plentyn L ac mae hi ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth fel claf mewnol. Felly, nid ydy hi wedi gallu cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cefnogi aelodau o'r teulu wedi sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r adolygiad ac mae'r adroddiad wedi'i rannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol.

Cyfnod yr adolygiad

Roedd yr adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Mehefin 2019 a 30 Mehefin 2020.

Ystyriwyd hanes y teulu hefyd gan y panel i alluogi dealltwriaeth o'r amgylchiadau a arweiniodd at symud i Gaerdydd â'r gwasanaethau yr ymgysylltwyd â nhw cyn dechrau cyfnod clo y Coronafeirws.

Cronoleg

Crynohir digwyddiadau allweddol yn ystod cyfnod yr adolygiad isod. Dyma ganolbwynt y trafodaethau yn y Digwyddiad Dysgu.

Dyddiad	Digwyddiad
Mis Mehefin 2019 i fis Ionawr 2020	
22 Gorffennaf 2019	Mynychodd Plentyn L apwyntiad clinig, gyda'i fam i'w adolygu gan Bediatregydd Ymgynghorol. Ni fynychwyd apwyntiad meddygol blaenorol gan fod y teulu wedi'i adleoli i gyfeiriad newydd yng Nghaerdydd ac roedd y llythyr apwyntiad wedi'i anfon i'r cyfeiriad gwreiddiol y lleolwyd y teulu ynddo pan gawsant eu symud i Gaerdydd.
8 Awst 2019	Cwblhawyd asesiad datblygiadol gan Ymwelydd Iechyd Lloches yn y cyfeiriad cartref. Dangosodd hyn fod Plentyn L yn datblygu o fewn terfynau arferol ac ni nodwyd unrhyw bryderon ar y pryd. Gwnaed atgyfeiriad at y Nyrs Feithrinfa Gymunedol am gymorth ynghylch deiet a maeth.
3 Medi 2019	Cwblhawyd archwiliad eiddo gan Swyddog Tai o Clearsprings Ready Homes Ltd. Ni chafodd unrhyw bryderon eu codi na'u rhannu. Cynhaliwyd archwiliadau pellach ar 25 Hydref a 26 Tachwedd 2019 ac eto ni chafodd unrhyw bryderon eu nodi na'u rhannu.
28 Tachwedd 2019	Derbyniwyd galwad 999 gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Galwodd menyw yn nodi bod nad oedd y goleuadau yn yr eiddo yn gweithio ac nad oedd yn siŵr pwy i'w ffonio. Cafodd ei chynghori i ffonio'r darparwr trydan. Ni anfonwyd ambiwlans.
17 Ionawr 2020	Nodyn achos PARIS (cofnod iechyd electronig cleifion) wedi'i ddogfennu gan Ymwelydd Iechyd Lloches. Gwelwyd y teulu yn ystafell aros Practis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd. Cynghorwyd y Fam y byddai'n gorfod aros am dipyn cyn ei gweld. Wedi hynny, ysgrifennodd lythyr at yr Ymwelydd Iechyd yn gofyn am wely i'w phlentyn gan ei fod yn dringo allan o'i got. Adroddodd y Fam hefyd ei bod yn cael ei hmosod arni gan denant benywaidd arall yn llety 'Nass'. Roedd hi'n teimlo bod yn rhaid iddi droedio'n ofalus iawn o amgylch y llety oherwydd ymddygiad y tenant arall. Dywedodd y Fam fod gan y tenant bryderon iechyd meddwl a dywedodd ei bod yn poeni amdani ei hun a'i phlentyn.
22 Ionawr 2020	Cwblhawyd archwiliad eiddo gan Swyddog Tai o Clearsprings Ready Homes Ltd. Ni chafodd unrhyw bryderon eu codi na'u rhannu.
Chwefror a Mawrth 2020	
6 Chwefror 2020	<p>Aeth menyw i Orsaf Heddlu. Dywedodd ei bod yn byw mewn ystafell ar lawr gwaelod preswylfa yng Nghaerdydd sy'n cael ei defnyddio gan y Swyddfa Gartref a dywedodd ei bod yn cael ei rheoli gan Gymdeithas Tai Linc i gartrefu ffoaduriaid.</p> <p>Cwynodd am guro a sŵn o fflat i fyny'r grisiau a oedd yn cael ei feddiannu gan Blentyn L, a'i fam. Roedd hi eisiau i rywun siarad â'r fam a'i gwneud yn ymwybodol o'r sŵn, ond heb ddatgelu pwy oedd wedi adrodd y pryder.</p> <p>Am 00.10 ar 15 Chwefror diweddarodd Swyddog yr Heddlu y digwyddiad gan ddweud ei fod wedi ymweld â'r cyfeiriad ac wedi siarad â'r preswilydd. Roedd plentyn tair oed a oedd yn ymddangos yn iach ac egniol iawn yn rhedeg ac yn</p>

	<p>chwarae yn y fflat. Nid oedd y lloriau laminedig yn helpu'r sefyllfa. Cynigiodd y swyddog rai awgrymiadau i leihau'r sŵn. Derbyniwyd nad oedd fawr ddim y gallai ei wneud am y sŵn, ac nid oedd yn fwiadol.</p> <p>Ni wnaed unrhyw atgyfeiriad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol oherwydd nad oedd y swyddog yn teimlo ei fod yn bodloni'r meini prawf. Fodd bynnag, anfonodd y swyddog e-bost at Gymdeithas Tai Linc yn awgrymu y dylai'r teulu newid ystafelloedd gyda'r person a adroddodd am y sŵn.</p> <p>Nid oedd y safle yn cael ei rheoli gan Gymdeithas Tai Linc ac ni chafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo i Clearsprings Ready Homes Ltd, ac ni chafodd yr Heddlu ei hysbysu nad oedd Cymdeithas Tai Linc yn rheoli'r adeiladau hyn.</p>
24 Chwefror 2020	Adroddwyd am y digwyddiad a ddisgrifir uchod i Clearsprings Ready Homes Ltd.
4 Mawrth 2020	<p>Ni chafodd Plentyn L ei gymryd i bedwar apwyntiad meddygol ar wahân rhwng 2018 a 2020.</p> <p>Anfonwyd llythyr at y meddyg teulu ym Mhractis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd i roi gwybod bod Plentyn L wedi cael ei ryddhau o'r gwasanaeth gan nad oedd wedi mynd i apwyntiad ysbyty</p>
12 Mawrth 2020	Cofnododd Clearsprings Ready Homes Ltd y digwyddiad a adroddwyd i'r Heddlu ar 6 Chwefror 2020 yn dilyn archwiliad eiddo. Roedd Swyddogion Tai yn ymgysylltu â mam Plentyn L a'r tenant arall. Datryswyd yn gyfeillgar.
23 Mawrth 2020	<p>Cyflwynodd y Swyddog Tai Lythyr Cyngor ar Symptomau COVID-19 â llaw. Roedd y Fam a Phlentyn L yn bresennol.</p> <p>Rhodddwyd gwybodaeth am sut i gael mynediad at gymorth wrth ynysu. Cynghorwyd y Fam hefyd y byddai pob archwiliad eiddo yn cael ei atal, a gofynnwyd am rif ffôn i ganiatáu i'r Swyddog Tai gysylltu â'r teulu dros y ffôn i wirio eu lles. Gwrthodwyd y cais hwn.</p> <p>Cynigiodd y Swyddog Tai fynediad at ffôn symudol hefyd, ond gwrthododd y Fam.</p> <p>Cafodd y Fam gyngor ar sut i gysylltu â'r gwasanaeth Cymorth i Fudwyr, y GIG a CRH os oedd angen cymorth pellach.</p>
Mis Ebrill i fis Mehefin 2020	
3 Mehefin 2020	Dyrannwyd meddyg teulu newydd i'r Fam ym Meddygfa Cathays.
24 Mehefin 2020	<p>Rhodddwyd i wybodaeth ddiweddaraf i'r Fam am bractis meddyg teulu newydd. Nid yw'n hysbys sut y cysylltwyd â'r Fam.</p> <p>Roedd Plentyn L yn parhau ar gofrestr Practis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd. Nid yw'n hysbys pam nad oedd y fam a Phlentyn L wedi'u cofrestru gyda'i gilydd gan mai dyna'r arfer arferol.</p>
27 Mehefin 2020	Am 22.47 derbyniodd Heddlu De Cymru alwad gan y tenant arall yn yr eiddo a oedd yn ymddangos wedi'i drysu ac yn siarad yn ddrislyd, gan honni bod y preswlydd benywaidd arall (mam Plentyn L) wedi dileu data ei ffôn a thynnu hunlun ar ei ffôn.

	<p>Nododd staff ystafell reoli'r heddlu ddwy alwad gan yr un preswlydd ym mis Mai a dechrau Mehefin ac roedd yn amlwg bod ganddi broblemau iechyd meddwl.</p> <p>Cadarnhaodd staff iechyd meddwl yn yr ystafell reoli fod y fenyw yn hysbys iddynt a bod yr eiddo yn cael ei reoli gan Clearsprings Ready Homes Ltd.</p> <p>Mynychodd swyddogion a siaradodd â'r tenant a chadarnhaodd ei bod yn ymddangos wedi'i drysu ac yn parhau i newid ei stori am yr hyn ddigwyddodd. Cafodd ei ffôn ei wirio ac nid oedd unrhyw broblemau.</p> <p>Cafodd Clearsprings Ready Homes Ltd wybod am y digwyddiad a rhannwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd gyda Gwasanaethau Oedolion a gadarnhaodd nad oedd angen cyfarfod strategaeth.</p>
29 Mehefin 2020	<p>Am 17:50 cysylltodd ffrind i'r teulu â Heddlu De Cymru drwy 999 i roi gwybod am bryderon nad oedd wedi gallu cael ateb ar y ffôn gan fam Plentyn L ac ar ôl mynd i'r cyfeiriad gallai ei chlywed yn sgrechian.</p> <p>Am 18:10 mynychodd Swyddogion yr eiddo a gorfodi mynediad i'r ystafell wely. Roedd y Fam a Phlentyn L ill dau yn bresennol. Nid oedd Plentyn L yn anadlu.</p> <p>Cyrhaeddodd ambiwlans a chadarnhau bod Plentyn L wedi marw.</p> <p>Cyrhaeddodd y Gwasanaeth Tân a chadarnhaodd fod y darlleniad carbon monocsid yn sero.</p> <p>Cafodd y Fam ei harchwilio yn yr ysbyty. Fe'i disgrifiwyd yn denau ac wedi'i dadhydradu. Nid oedd unrhyw arwyddion o unrhyw anafiadau corfforol.</p>

Roedd mynychwyr y Digwyddiad Dysgu yn cydnabod bod newidiadau a gwelliannau mewn ymarfer ar draws pob asiantaeth ers marwolaeth Plentyn L yn 2020. Mae'r rhain wedi'u gwneud oherwydd ymrwymiad cyffredinol i esblygu a datblygu i ddiwallu anghenion y cyhoedd a hefyd yng nghyd-destun gwersi a ddysgwyd oherwydd y pandemig.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodwch bob pwylt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

(Gall amgylchiadau perthnasol sy'n ategu pob pwynt dysgu gael eu cyfeirio gan yr hyn a ddysgwyd trwy gyswllt y teulu â gwasanaethau gwahanol, safbwyntiau ymarferwyr, eu hasesiadau a'r camau a gymerwyd ganddynt, safbwyntiau aelodau'r teulu, tystiolaeth am ymarfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau.)

Tai

Mae unigolion sy'n ceisio lloches neu statws ffoadur yn agored i niwed, nid yn unig oherwydd y digwyddiadau sydd wedi eu harwain i'r DU, ond hefyd oherwydd yr ynysu sy'n gysylltiedig â rhwystrau iaith a diwylliannol. Yn ogystal â hyn, mae'r heriau sy'n wynebu awdurdodau sydd â rôl i ddod o hyd i lety addas yn golygu y gellir gwahanu teuluoedd oddi wrth rwydweithiau cymorth sefydledig.

Roedd gan Oedolyn A deulu a ffrindiau o'i chwmpas yn ardal Llundain, a ddarparodd rwydwaith cymorth agos iddi. Fodd bynnag, arweiniodd y prinder aciwt o dai addas yn Llundain at ei lleoli yng Nghaerdydd ar ôl genedigaeth ei phlentyn. Nid yw lleoli unigolion sy'n ceisio lloches neu statws ffoaduriaid i ardaloedd eraill o'r DU lle nad yw pwysau tai mor sylweddol yn arfer anghyffredin.

Ar gyfer Oedolyn A, arweiniodd hyn at leihau ei rhwydwaith cymorth ar adeg pan gellid dadlau ei bod wedi dod yn fwy agored i niwed fel rhiant sengl i fabi bach. Fodd bynnag, gwnaeth gysylltiadau da â grwpiau eglwysig lleol yn ardal Caerdydd a gwnaeth gyfeillgarwch newydd a chefnogol. Cafodd Oedolyn A a'i phlentyn eu lletya mewn dau eiddo gwahanol yn ardal Caerdydd, y ddau ohonynt yn cael eu rheoli gan Clearsprings Ready Homes Ltd. Fe'i symudwyd o'r eiddo cychwynnol ar gais y darparwr tai oherwydd gorlenwi. Mae'n amlwg o'r adolygiad hwn bod her mewn perthynas ag argaeledd eiddo addas i gartrefu teuluoedd, a bod y sefyllfa yn esblygu'n gyson ym mhob ardal o'r DU. Mae llety a rennir yn cyflwyno her arbennig o ran gwahanol ddiwylliannau, ethnigrwydd a ffyrdd o fyw unigolion sy'n cydfodoli o fewn yr un gofod.

Roedd yr ail eiddo y symudwyd Oedolyn A a'i phlentyn iddo yn llety a rennir ac roedd wedi'i gategoreiddio'n Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO). Nid oes proses ffurfiol ar gyfer paru anghenion preswylwyr llety a rennir / HMOs ac mae lleoedd yn cael eu dyrannu yn ôl argaeledd. Er bod ganddi ystafelloedd gwely ar wahân iddi hi a'i phlentyn, roedd yr ystafell ymolchi, yr ystafell fyw a'r gegin i gyd yn cael eu rhannu gyda chyd-breswlydd o'r un eiddo. Roedd y preswlydd arall yn meddiannu'r ystafell wely ar y llawr gwaelod ac roedd ganddi fynediad cyfartal i'r ystafell ymolchi, yr ystafell fyw a'r gegin.

Mae'n amlwg o'r adolygiad hwn bod sawl asiantaeth wedi cofnodi'r preswlydd arall fel cymydog neu rywun oedd yn byw yn y fflat ar y llawr gwaelod, ac nad oedd pawb yn deall union fath a chynllun yr eiddo. Nid oedd disgrifio trefniadau byw y preswlydd arall yn y termau hyn yn cydnabod agosatrwydd byw mewn llety a rennir a'r effaith bosibl a gafodd iechyd meddwl gwael y preswlydd hwn ar Oedolyn A a'i phlentyn.

Adroddwyd am ddigwyddiadau i'r Heddlu a'r darparwr Tai a nodwyd eu bod wedi'u datrys yn gyfeillgar. Byddai gwell dealltwriaeth o'r digwyddiadau a adroddwyd wedi tynnu sylw at y tensiwn rhwng y preswylwyr, a gallai'r darparwr Tai a'r asiantaeth oedd yn gyfrifol am leoli pobl yn y cyfeiriad hwnnw fod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r adolygiad yn dangos gwiriadau rheolaidd a niferus yn cael eu cynnal gan y darparwr Tai yn ôl yr angen yn unol â'u rhwymedigaethau cytundebol. Roedd y rhain yn canolbwyntio i ddechrau ar gynnal a chadw/cyflwr yr eiddo ac yn rhoi ychydig neu ddim arwydd o ryngweithio â phreswylwyr. Tynnwyd sylw yn y digwyddiad dysgu at y ffaith bod y gwiriadau hyn bellach hefyd yn cynnwys gofyniad i ymgysylltu â'r preswlydd i wirio ei les. Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, materion lleol a allai fod yn effeithio ar yr unigolyn, anawsterau o fewn y llety ac unrhyw bryderon sy'n deillio o faterion y tu allan i'r DU a allai achosi pryder i'r unigolyn.

Dylid nodi, yn dilyn marwolaeth Plentyn L, y sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn effeithiol mewn perthynas â cheiswyr lloches sy'n byw yn ardal Caerdydd. Ymgwymerodd y grŵp ag ymarfer mapio i bennu ble roedd pawb yn byw ac a oeddent mewn cysylltiad â gwasanaethau yn y ddinas. Roedd yr ymarfer hwn yn galluogi canolbwyntio ymdrech ar sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu a bod camau diogelu priodol yn cael eu cymryd lle bo angen.

Pwynt dysgu

Pan fydd unigolion / teuluoedd yn cael eu rhoi mewn tai amlfeddiannaeth, mae angen dealltwriaeth o'r eiddo a'i breswylwyr eraill i nodi unrhyw ffactorau a allai achosi i'r unigolyn / teulu fod yn agored i niwed. Mae angen chwilfrydedd pryderus i ddeall profiad byw yr unigolyn / teulu a'i adolygu'n rheolaidd ac ar adegau lle derbynir gwybodaeth newydd sy'n dangos ffactorau a allai achosi i'r unigolyn / teulu fod yn agored i niwed. Mae rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn hanfodol i sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt.

Ymwneud â Gwasanaethau Iechyd

Roedd gan Oedolyn A a Phlentyn L anghenion iechyd parhaus a oedd yn gofyn am fynediad rheolaidd at wasanaethau iechyd. Cyfrifoldeb Oedolyn A oedd sicrhau bod gan wasanaethau fanylion cyfredol am ei

chyfeiriad. Nid yw'n glir a oedd Oedolyn A yn deall ei chyfrifoldeb yn y maes hwn. Arweiniodd hyn at gollu apwyntiadau meddygol gan fod llythyrau yn cael eu hanfon i gyfeiriad anghywir.

Cofrestrwyd Oedolyn A a'i phlentyn i ddechrau ym Mhractis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd (CHAP). (Fe'i gelwir bellach yn Wasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro CAVHIS.) Yn y digwyddiad dysgu, cawsom wybod gan ymarferwyr iechyd fod y Groes Goch bellach yn cefnogi teuluoedd sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid sydd wedi'u cofrestru gyda CHAP i gwblhau unrhyw waith papur angenrheidiol ac ymgymryd ag asesiad o anghenion lles cyfannol i nodi anghenion cymorth eraill.

Tynnwyd sylw hefyd yn y digwyddiad dysgu bod sawl apwyntiad meddygol wedi'u colli yn ymwneud â Phlentyn L. Cofnodwyd y rhain fel Heb Fynychu (DNA). Esboniodd ymarferwyr iechyd yn y digwyddiad dysgu, o ystyried ei oedran, na fyddai Plentyn L ar fai am hyn.

Codwyd bod rhwystr iaith i Oedolyn A ac er bod y llythyrau ar gyfer apwyntiadau meddygol yn cael eu hanfon i'w chyfeiriad blaenorol, nid oedd unrhyw archwiliad o ran a oedd angen cyfieithu'r rhain neu a oedd hyn yn ffactor i beidio â derbyn ymatebion.

Tynnwyd sylw at rôl yr ymwelydd iechyd wrth ddeall y rhwystrau y mae'r teuluoedd yn eu hwynebu a chefnogi teuluoedd yn rhagweithiol i fynd i'r afael â materion y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau meddygol fel rhan hanfodol o'r broses yn y dyfodol.

Mae'r polisi ar gyfer cofnodi apwyntiadau a gollwyd gan blant bellach wedi newid ac mae bellach wedi'i gofnodi fel Heb ei Gludo i'r Apwyntiad. Byddai'r apwyntiadau hyn a gollwyd hefyd bellach yn sbarduno atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant.

Roedd natur cyflwr meddygol Plentyn L yn golygu bod apwyntiadau yn cael eu cynnig mewn unedau arbenigol ar draws De Cymru a Llundain. Roedd y rhain yn her i Oedolyn A eu mynychu gyda Phlentyn L gan nad oedd ganddynt fynediad at drafnidiaeth. Er y cydnabyddir ei bod wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen i gefnogi costau trafnidiaeth i fynychu apwyntiadau, gwrthodwyd hyn gan y Swyddfa Gartref. Arweiniodd y diffyg presenoldeb dilynol yn yr apwyntiadau hyn at ryddhau Plentyn L o'r gwasanaethau hynny.

Pwynt dysgu

Pan nad oes gan deuluoedd Saesneg fel iaith gyntaf, cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ac ystyriaeth ychwanegol i sicrhau eu dealltwriaeth lawn o brosesau. Pan fo anghenion iechyd parhaus yn hysbys, yn enwedig mewn perthynas â phlant, mae angen cydnabod a rhannu unrhyw rwystrau i ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol a bod y rhain ac unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dogfennu'n llawn.

Iechyd Meddwl

Ers marwolaeth Plentyn L, mae Oedolyn A wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl sylweddol sydd wedi gofyn am driniaeth ysbyty fel claf mewnol. Nid yw'r cofnodion iechyd sydd ar gael fel rhan o'r adolygiad yn nodi pryderon iechyd meddwl blaenorol. Mae'n bosibl bod yr amgylchiadau amgylcheddol a'r ynysu wedi arwain at ddirywiad yn iechyd meddwl Oedolyn A.

Yn ogystal, gwyddys bod gan y preswlydd arall sy'n byw yn y llety a rennir gydag Oedolyn A a'i phlentyn broblemau iechyd meddwl parhaus. Mae hyn yn cael ei ddogfennu gan wasanaethau fel yr Heddlu, Iechyd a Clearsprings Ready Homes Ltd. Er bod tystiolaeth gyfyngedig mewn perthynas â'u rhyngweithio o fewn y llety, mae'n amlwg o adroddiadau'r Heddlu bod y preswlydd yn profi meddyliau paranoiaidd mewn perthynas ag Oedolyn A ac wedi adrodd ei bod wedi cymryd camau penodol a gafodd eu gwrthbrofi yn ddiweddarach. Gallai hyn fod wedi arwain at densiwn o fewn yr eiddo ac effeithio ar iechyd meddwl Oedolyn A. Nid oes unrhyw gofnod asiantaeth o unrhyw ystyriaeth ehangach na rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'r effeithiau posibl hyn ar Blentyn L.

Pwynt dysgu

Yn yr un modd â'r pwyntiau dysgu cynharach, mae angen deall ac adolygu effaith preswylwyr eraill mewn tŷ amifeddiannaeth ar y rhai sydd â ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a chwilfrydedd i ddeall profiad byw yr unigolyn / teulu yn

hanfodol wrth nodi ac ymateb i ffactorau sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed fel effaith dirywiad iechyd meddwl a dogfennu camau gweithredu a ystyriwyd neu a gymerwyd.

COVID-19

Ar ddechrau'r pandemig roedd pryder cymdeithasol byd-eang a diffyg gwybodaeth am y ffordd orau o amddiffyn y cyhoedd rhag y coronafeirws. Yn gyffredinol, cynghorwyd ynysu eich hun a'r teulu, yn enwedig y rhai â chyflyrau meddygol sylfaenol yr ystyriwyd eu bod mewn risg uwch o gymhlethdodau pe baent yn dal y feirws. Gan fod Oedolyn A yn credu ei bod ganddi Diabetes Math 2, roedd Oedolyn A yn credu ei bod o fewn y grŵp risg uchel.

Tynnwyd sylw at gyfyngiadau symud COVID-19 yn yr adolygiad hwn fel ffactor arwyddocaol gan eu bod yn amlwg yn wedi creu amgylchedd o ynysu o amgylch Oedolyn A a'i phlentyn. Roedd llai o gyswllt wyneb yn wyneb â ffrindiau neu mewn grwpiau eglwysig lleol, ac roedd y cyfle i weithwyr proffesiynol weld y teulu a gwneud sylwadau am eu lles wedi'i leihau'n sylweddol, o fewn yr amgylchedd cartref ac ar safleoedd proffesiynol. Mae'n bwysig cydnabod effaith yr holl gyswllt wyneb yn wyneb gan yr holl asiantaethau a ffrindiau yn dod i ben, a arweiniodd at ynysu Oedolyn A yn llwyr a diffyg cefnogaeth.

Dylid nodi hefyd bod dechrau pandemig y coronafeirws wedi arwain at newidiadau sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau llawer o asiantaethau sy'n ymwneud â'r broses adolygu hon. Roedd y sefyllfa ar y pryd yn ddeinamig ac yn esblygu ac roedd y cyflymder yr oedd yn ofynnol i lawer o asiantaethau adolygu ac addasu arferion sefydledig yn ddigynsail. Roedd hyn hefyd yn erbyn cefndir o brinder staff i lawer o asiantaethau a fu'n rhaid amddiffyn eu staff eu hunain rhag dal y feirws.

Pwynt dysgu

Er ei bod yn cael ei gydnabod y cyflwynodd pandemig Covid 19 heriau sylweddol i asiantaethau, mae dealltwriaeth gywir o brofiad byw y rhai â ffactorau oedd yn eu gwneud yn agored i niwed, yn enwedig lle mae'r rhain yn croestorri, yn hanfodol i'w diogelu. Mae cyfarfodydd rheolaidd a chysylltiad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol i sicrhau bod ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed a'r rhai sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt.

Ymprydio Crefyddol

Roedd Oedolyn A yn gredwr yn y grefydd Gristnogol ac yn mynychu eglwys leol lle roedd yr arfer o ymprydio ymhlith oedolion iach yn cael ei gydnabod fel ffordd o ymrwymo i Dduw. Gwyddys bod Oedolyn A yn ymroddedig i'w chrefydd ac yn dilyn yr arfer o ymprydio fel ffordd o gyfathrebu â Duw.

Yn yr eglwys yr oedd Oedolyn A yn ei mynychu, roedd ymprydio yn wirfoddol ac ni fyddai plant yn cael eu hannog i ymprydio.

Nid oedd unrhyw arwyddion blaenorol i asiantaethau bod iechyd meddwl Oedolyn A yn dirywio i'r graddau y gallai'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol fel dylanwad cadarnhaol ar ei bywyd (bod yn rhan o gymuned yr Eglwys) ymhelaethu ar risgiau o'r arferion hyn.

Arfer Da

Bu enghreifftiau clir o arfer da gan weithwyr proffesiynol a ddaeth i gysylltiad ag Oedolyn A a'i phlentyn yn ystod cyfnod yr adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys rhyngweithio â'r Ymwelydd Iechyd y mae'n amlwg yr oedd gan Oedolyn A berthynas gadarnhaol ag ef. Roedd hi'n ymddangos yn gyfforddus yn cysylltu ag ef am gymorth ychwanegol ac yn ymddiried y byddai'n darparu cyngor priodol.

Roedd y Swyddog Heddlu a ymatebodd i adroddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol ar 6 Chwefror 2020 yn gallu adnabod achos tensiwn posibl rhwng Oedolyn A a'r preswlydd arall a gwnaeth awgrymiadau clir a defnyddiol ar sut i ddatrys y sefyllfa hon. Roedd hyn yn cynnwys e-bostio'r cwmni yr oedd yn credu oedd y darparwr tai gyda'r awgrymiadau hyn.

Yn ogystal, nodwyd y ffordd amserol y darparodd Clearsprings Ready Homes Ltd wybodaeth am COVID-19 i breswylwyr. Roedd y darparwr Tai wedi cynnig darparu cyswllt ffôn symudol i breswylwyr o'r enw Clear Voice, sy'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth gael sgwrs 3 ffordd rhyngddyn nhw, y cyfieithydd a swyddog Tai. Byddai hyn yn hwyluso cyswllt ar adeg pan oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei leihau, fodd bynnag, gwrthododd Oedolyn A y cynnig hwn. Dylid cydnabod hyn fel darparu ffordd dda o gysylltu ac adeiladu perthynas a sicrwydd â'r preswylwyr. Roedd opsiynau eraill hefyd ar gael i gynorthwyo cyfathrebu, sef Big Voice a Language Line.

Crynodeb o'r dysgu

Roedd Plentyn L a'i riant wedi profi heriau mewn perthynas â thai ac iechyd, ac ar adegau roedd yn cael trafferth deall systemau yn y DU. Yn anffodus, fe wnaeth ynysu a achoswyd gan bandemig y coronafeirws gymhlethu'r heriau hyn ymhellach ac arweiniodd at leihau'r rhwydwaith cymorth cadarnhaol yr oedd Oedolyn A wedi'i ddatblygu yn ardal Caerdydd a newid y ffordd y darparwyd cymorth gan asiantaethau allweddol. Er ei bod yn anodd pennu a arweiniodd un mater penodol neu gyfuniad o amgylchiadau at farwolaeth Plentyn L, mae cyfleoedd clir i ddysgu o'r sefyllfa drasig hon ac adeiladu ar newidiadau cadarnhaol sydd eisoes wedi'u gwneud.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r canlyniadau gwella disgwylidig:

Pwynt Dysgu Tai

Pan fydd unigolion / teuluoedd yn cael eu rhoi mewn tai amlfeddiannaeth, mae angen dealltwriaeth o'r eiddo a'i breswylwyr eraill i nodi unrhyw ffactorau a allai achosi i'r unigolyn / teulu fod yn agored i niwed. Mae angen chwilfrydedd pryderus i ddeall profiad byw yr unigolyn / teulu a'i adolygu'n rheolaidd ac ar adegau lle derbynnir gwybodaeth newydd sy'n dangos ffactorau a allai achosi i'r unigolyn / teulu fod yn agored i niwed. Mae rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn hanfodol i sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt.

Argymhellion

1. Mae tai amlfeddiannaeth (HMO's) yn gofyn am asesiad manwl ar gyfer pob preswlydd i nodi unrhyw ffactorau anghydnaws o ran ffordd o fyw neu ddiwylliannau. Ar ôl asesu, os na ellir atal y ffactorau gwrthdaro posibl hyn, dylai hyn brofi'r angen am leoli mewn llety ar wahân. Mae rhywfaint o symudiad eisoes wedi bod tuag at gyflawni'r argymhelliad hwn gyda chyflwyno trafodaethau achos cymhleth wedi'u hwyluso gan y Swyddfa Gartref. Dylid rhannu'r dysgu hwn gyda darparwyr yn y rhanbarth sydd â chyfrifoldeb am reoli HMOs.
2. Dylid gofyn i bob Darparwr Tai llety a rennir gynnwys gwiriad lles o fewn arolygiadau tai safonol gyda'r bwriad o helpu i nodi anghenion cymorth yn gynnar.

Pwynt Dysgu Ymwneud â Gwasanaethau Iechyd

Pan nad oes gan deuluoedd Saesneg fel iaith gyntaf, cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ac ystyriaeth ychwanegol i sicrhau eu dealltwriaeth lawn o brosesau. Pan fo anghenion iechyd parhaus yn hysbys, yn enwedig mewn perthynas â phlant, mae angen cydnabod a rhannu unrhyw rwystrau i ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol a bod y rhain ac unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dogfennu'n llawn.

Argymhellion

3. Dylai asiantaethau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr holl gyfathrebu yn cael ei ddeall gan y defnyddiwr gwasanaeth. Efallai y bydd angen cyfieithu i wahanol ieithoedd neu ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu. Deallir bod asiantaethau yn aml yn cael gwybodaeth allweddol wedi'i chyfieithu i'r ieithoedd mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Argymhellir bod asiantaethau yn parhau i gynnal adolygiad o hyn oherwydd newidiadau o fewn y garfan sy'n ceisio lloches a'r angen i sicrhau bod y defnydd o dafodieithoedd lleol yn cael ei ystyried.
4. Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ddatblygu canllawiau arfer gorau i gefnogi asiantaethau i wella ansawdd y nodiadau a gymerir a chofnodi. Dylai'r rhain annog ymarferwyr i ddisgrifio amgylchiadau'r cyfarfod/ymweliad i sicrhau ei fod yn dileu unrhyw gyfle am ragdybiaethau neu gredoau a bod tystiolaeth o wiriadau a heriau yn eu cofnodion. Mae angen annog staff i gofnodi manylion yr hyn y maent wedi'i weld, ei glywed, ei aroglu a'i deimlo yn ystod eu cyfarfod/ymweliad. Bydd y cofnodion manwl hyn yn caniatáu i gydweithwyr ddeall yn llawn beth oedd yr amgylchiadau ar y pryd.
5. Dyrannu gweithiwr ieuchyd proffesiynol i archwilio rhwystrau i gael mynediad at apwyntiadau ieuchyd a chymorth i'w goresgyn i sicrhau bod anghenion ieuchyd yn cael eu diwallu.

Pwynt Dysgu Covid 19

Er ei bod yn cael ei gydnabod y cyflwynodd pandemig Covid 19 heriau sylweddol i asiantaethau, mae dealltwriaeth gywir o brofiad byw y rhai â ffactorau oedd yn eu gwneud yn agored i niwed, yn enwedig lle mae'r rhain yn croestorri, yn hanfodol i'w diogelu. Mae cyfarfodydd rheolaidd a chysylltiad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol i sicrhau bod ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed a'r rhai sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt.

Argymhelliad

6. Mae cyswllt wyneb yn wyneb ag unigolion a theuluoedd yn hanfodol ac ni ellir ei ddisodli gan ymweliadau/cyfarfodydd wedi'u hwyluso yn rhithwir. Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol dderbyn sicrwydd gan Asiantaethau'r Bwrdd bod eu staff yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth ac yn enwedig ag unigolion agored i niwed

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
ADOLYGYDD 1		ADOLYGYDD 2 (fel y bo'n briodol)	
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol sy'n berthnasol i'r cyfnod</p> <p>cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ymarferwyr sy'n rhan o'r achos Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 		<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol sy'n berthnasol i'r cyfnod</p> <p>cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ymarferwyr sy'n rhan o'r achos Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 	
<p>Adolygydd 1 (Llofnod)</p> <p>Enw (Priflythrennau)</p> <p>Dyddiad</p>		<p>Adolygydd 2 (Llofnod)</p> <p>Enw (Priflythrennau)</p> <p>Dyddiad</p>	
<p><i>Cadeirydd y Panel Adolygu</i> (Llofnod)</p> <p>Enw (Priflythrennau)</p> <p>Dyddiad</p>			

Y Broses Adolygu Ymarfer Plant

I gynnwys yn gryno yma:

- *Y broses y mae BDCF a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu yn ei dilyn*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fu'n bresennol.*
- *Hysbyswyd aelodau'r teulu, ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli trwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt*

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ar 8 Medi 2022. Cyfarfu'r panel wyth gwaith i gyd.

Gofynnwyd i bob aelod o'r panel ddarparu llinell amser o gysylltiadau eu hasiantaeth o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Yna cyfunwyd y llinellau amser i gronoleg i'w hadolygu a'u dadansoddi gan y panel. Ystyriwyd gwybodaeth hanesyddol berthnasol a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Plant, lechyd a'r Heddlu hefyd fel rhan o'r adolygiad.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 27 Chwefror 2024 a gynullodd 11 aelod o staff o asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos. Cafodd y mynychwyr eu nodi gan aelodau'r panel ar gyfer eu priod asiantaethau a chawsant eu briffio gan eu haelod panel cyn y digwyddiad. Roedd yr asiantaethau a oedd yn bresennol yn cynnwys:

- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Heddlu De Cymru
- Y Swyddfa Gartref
- Clearsprings Ready Homes

Arweiniwyd y digwyddiad dysgu gan y Cadeirydd a'r Adolygwyr a rhoddwyd cyfle i weithwyr proffesiynol fyfyrion ar eu hymwneud â'r teulu a nodi unrhyw ddysgu.

Mae cyfranogiad a chysylltiad â theulu Plentyn L wedi'u hystyried trwy gydol yr adolygiad a'u trafod ym mhob cyfarfod y panel. Y prif gyswllt a ystyriwyd oedd gyda Phlentyn L, felly cysylltodd yr adolygwyr â'i weithiwr cymdeithasol i weld a oedd hyn yn briodol. Penderfynodd y trafodaethau na fyddai'n briodol cael cyswllt â Phlentyn L ar hyn o bryd, ond sefydlwyd ei fod mewn lleoliad maethu sefydlog ac yn gwneud yn dda. Rhannwyd y diweddariad hwn gyda mynychwyr y digwyddiad dysgu.

Ystyriwyd cysylltu â mam Plentyn L fel rhan o'r adolygiad. Cafodd Oedolyn A ddiagnosis o salwch meddwl sylweddol yn dilyn marwolaeth Plentyn L ac mae hi ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth fel claf mewnol. Felly, nid ydy hi wedi gallu cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cefnogi aelodau o'r teulu wedi sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r adolygiad ac mae'r adroddiad wedi'i rannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol.

Hoffai'r Cadeirydd a'r Adolygwyr ddiolch i'r holl ymarferwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu ac a gyfrannodd at y dysgu a nodwyd.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

Dyddiad anfon at yr arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

Asiantaethau	✓	X	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl Adolygiad Ymarfer Plant (Cryno) CPR07/2020

Cyflwyniad

Caiff adolygiad ymarfer plant cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2. Comisiynir adolygiad ymarfer plant cryno pan fo plentyn mewn perygl sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w ddiogelu rhag cam-drin neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol a'i fod wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- yr amharwyd yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd.

Cylch Gorchwyl

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl isod ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Amserlen yr adolygiad fydd **1 Mehefin 2019 - 30 Mehefin 2020**
[sy'n cynnwys diwrnod ar ôl marwolaeth]
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio cronoleg/amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r plentyn (a'r teulu), at ddiben yr amserlen y cytunwyd arni uchod. Yna caiff cronoleg gyfunol ei llunio.
 - Heddlu De Cymru
 - Gwasanaethau Plant Caerdydd

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Y Swyddfa Gartref/Gwasanaeth Mewnfudo
- Clearsprings Ready Homes
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol Caerdydd
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- EMRTS

Tasgau Craidd (adolygiad ymarfer cryno)

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau ar gyfer yr unigolyn a'i deulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyfochrog o ran yr achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.

- Nodi'r asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad na chysylltwyd â nhw eisoes gan yr Is-grŵp Adolygu Achosion, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu a roddwyd eisoes ar waith yn syth.
- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.
- Cynllunio gydag adolygydd/adolygwyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi pwy sy'n dod, a threfniadau i'w paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/adolygwyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw wersi ychwanegol wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Achosion a BDCF i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Creu sesiwn briffio 7 munud ar y dysgu a nodwyd o'r Adolygiad Ymarfer Plant.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y *panel adolygu* i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- BDCF i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnynt nhw cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grwp Monitro, gan gynnwys sut caiff gwelliannau i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan BDCF.
- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Cyd-gadeirydd Bro Morgannwg BDCF fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus ac ymateb i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad tan gwblheir y broses.